BRO MORGANNWG

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD 2021-2036

# HUNANASESIAD O'R CYNLLUN ADNEUO YN ERBYN PORFION CADERNID

Tachwedd 2025



PAPUR CEFNDIR - BP46

RLDP CDLN

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

@CBroMorgannwg CyngorBroMorgannwg LDP@valeofglamorgan.gov.uk 01446 704681 www.bromorgannwg.gov.uk

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Mae'r Papur Cefndir hwn wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â Chynllun Adneuo Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Bro Morgannwg. Elfen allweddol o'r broses o baratoi'r cynllun datblygu yw dangos bod y Cynllun yn 'gadarn'. Mae’r Papur Cefndir hwn yn asesu’r Cynllun Adneuo (CA) yn erbyn y profion cadernid a nodir gan Lywodraeth Cymru yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3 – Mawrth 2020).

1.2 Mae'r Papur Cefndir hefyd yn amlinellu'r berthynas rhwng Polisïau’r CDLIN ac Amcanion y CDLIN yn ogystal â Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Chynllun Corfforaethol y Cyngor, (gweler Atodiad 1 – 3). Wrth asesu'r cysylltiad rhwng y polisïau hyn ac Amcanion y CDLIN, mae’r graddau y mae'r Cynllun yn adlewyrchu Egwyddorion Cynllunio Allweddol Polisi Cynllunio Cymru (PCC) wedi cael ei ystyried hefyd.

1.3 At hynny, mae asesiad manwl o gydymffurfiaeth y Cynllun Adneuo â Chymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 (Llywodraeth Cymru, Chwefror 2021) wedi cael ei gynnal ac mae ar gael yn Atodiad 4.

1.4 Ystyrir bod yr hunanasesiad a wnaed gan y Cyngor yn dangos bod y Cynllun Adneuo, y camau a gymerwyd, a'r prosesau a ddilynwyd i gyrraedd y cam hwn yn 'gadarn'. Mae'r hunanasesiad hwn o'r Cynllun Adneuo yn erbyn y tri Prawf Cadernid wedi'i nodi isod. Bydd cadernid cyffredinol y Cynllun yn parhau i gael ei asesu mewn Archwiliad gan Arolygydd Cynllunio.

RLDP CDLN

**Cyngor Bro Morgannwg**
Cyfarwyddiaeth Lleoedd
Swyddfeydd Dinesig
Heol Holltwn
Y Barri CF63 4RU

LDP@bromorgannwg.gov.uk
www.bromorgannwg.gov.uk

